**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Y Pwyllgor Busnes

**Mawrth 2017**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 23 - Adolygiad o Drefniadau Deisebau Cyhoeddus

## Diben

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am wneud argymhellion ar weithdrefnau ac arferion cyffredinol y Cynulliad, gan gynnwys unrhyw gynigion i ail-wneud neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog.

2. Mae'r adroddiad yn argymell diwygiadau i Reolau Sefydlog 23.2(i) a 23.4, a dileu Rheol Sefydlog 23.5. Mae'r newidiadau a gytunwyd gan y Pwyllgor Busnes i'w gweld yn Atodiad A, ac mae'r cynigion ar gyfer Rheolau Sefydlog newydd i'w gweld yn Atodiad B.

## Cefndir

3. Roedd adroddiad Pwyllgor Deisebau y Pedwerydd Cynulliad a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016, *Adolygiad o Drefniadau Deisebau Cyhoeddus*, yn gwneud nifer o argymhellion ar gyfer newid prosesau deisebau cyhoeddus y Cynulliad.

4. Ym mis Gorffennaf 2017, trafododd Pwyllgor Busnes y Pumed Cynulliad yr adroddiad yn ei gyfanrwydd a nododd y byddai'n barod i ystyried Argymhellion 1, 3, 4, 7, 8, 11 a 17, y gallent i gyd fod wedi'u gweithredu gan newidiadau i'r Rheolau Sefydlog. Ysgrifennodd y Pwyllgor Busnes at y Pwyllgor Deisebau newydd i geisio ei farn ar ba rai o argymhellion ei ragflaenydd y byddai'n hoffi bwrw ymlaen â hwy.

5. Roedd ymateb y Pwyllgor Deisebau yn nodi y byddai'n hoffi i'r Pwyllgor Busnes fwrw ymlaen â'r tri argymhelliad a ganlyn:

- *Argymhelliad 3: Rydym yn argymell cael gwared ar y trothwy deuol presennol ar gyfer llofnodion a bod y trothwy ar gyfer ystyried unrhyw ddeiseb yn cael ei godi i 50 o lofnodion.*
- *Argymhelliad 4: Rydym yn argymell mai dim ond pobl sy'n byw yng Nghymru neu sefydliadau sydd â swyddfa yng Nghymru ddylai allu cyflwyno deisebau. Ni ddylid cael cyfyngiadau ar y rhai sydd am lofnodi deiseb.*
- *Argymhelliad 8: Rydym yn argymell i'r Pwyllgor newydd yn y Pumed Cynulliad y dylai...ystyried cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn yn awtomatig ar unrhyw ddeiseb sy'n cyrraedd trothwy llofnodion (efallai bod ffigur o 10,000 o lofnodion yn briodol)...*

## Cynigion ar gyfer newidiadau i Reolau Sefydlog

6. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i fwrw ymlaen â'r newidiadau hynny a gefnogir gan y Pwyllgor Deisebau newydd, ac mae'r newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a gynigir yn yr adroddiad hwn wedi'u cynllunio i roi Argymhellion 3 a 4 ar waith.

*Rheol Sefydlog 23.2(i) – Deisebydd i fod yn byw neu wedi'i leoli yng Nghymru*

7. Bwriad y diwygiad i Reol Sefydlog 23.2(i) yw gweithredu argymhelliad 4 y Pwyllgor Deisebau y dylai deisebau a gyflwynir i'r Cynulliad fod yn amlwg ar faterion sy'n peri pryder i, neu gynnwys cynigion polisi gan, bobl a/neu sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Byddai'n ofynnol i'r deisebydd fod yn byw yng Nghymru, neu - yn achos sefydliadau - fod â swyddfa yng Nghymru, a fyddai'n cael ei wirio drwy wiriad cod post pan fo deiseb yn cael ei chyflwyno. Ni chynigir newidiadau ar gymhwysedd i lofnodi deisebau, sy'n parhau i fod heb gyfyngiadau.

*Rheol Sefydlog 23.4 a dileu 23.5 - Trothwy llofnodion*

8. Byddai'r newid arfaethedig i Reol Sefydlog 23.4 yn cynyddu'r trothwy llofnodion ar gyfer pob deiseb o 10 i 50, yn unol ag argymhelliad 3 yr Adolygiad o Ddeisebau Cyhoeddus. Mae'r cynnig i ddileu Rheol Sefydlog 23.5 yn dod â'r gwahaniaeth presennol rhwng deisebau gan sefydliadau ac unigolion i ben, fel y bydd angen 50 o lofnodion ar bob deiseb.

9. Nod y cynnydd hwn yw sicrhau cydbwysedd rhwng diogelu natur agored system ddeisebau y Cynulliad a helpu i gynyddu hygrededd y broses ddeisebu; ac i'r un trothwy fod yn gymwys os yw deisebydd yn sefydliad.

*Argymhelliad 8 - Trothwy awtomatig ar gyfer dadleuon ar ddeisebau yn y Cyfarfod Llawn*

10. Cytunodd y Pwyllgor Deisebau newydd gydag Argymhelliad 8, y dylai deisebau sy'n cael nifer penodol o lofnodion gael eu hystyried yn awtomatig ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Deisebau newydd yn ystyried mai 5,000 o lofnodion yw'r trothwy mwyaf priodol, yn hytrach na 10,000 fel yr argymhellwyd gan y pwyllgor blaenorol. Mae hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r deisebau a ddaeth i law ers dechrau'r Pedwerydd Cynulliad sy'n nodi y gellid disgwyl i tua thair deiseb y flwyddyn gyrraedd y trothwy.

11. Fodd bynnag, cred y Pwyllgor Busnes a'r Pwyllgor Deisebau y byddai'n briodol i'r Pwyllgor Deisebau ddefnyddio ei ddisgresiwn ei hun ynghylch unrhyw ddeiseb nad yw'n cyrraedd y trothwy, gan ystyried materion megis perthnasedd trafod y mater a'r amser mwyaf priodol. Roedd y Pwyllgor Deisebau hefyd am gadw'r hawl i ddefnyddio ei ddisgresiwn i wneud cais am gynnal dadleuon ar ddeisebau eraill nad ydynt yn cyrraedd y trothwy hwn, ond yr ystyrir ei bod yn briodol eu trafod gan y Cynulliad cyfan.

12. Felly, caiff y newid hwn ei fabwysiadu fel rhan o drefn mewnol y Pwyllgor ac ni fyddai'n gofyn am newidiadau o ran Rheolau Sefydlog. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi gofyn i'r Pwyllgor Deisebau ysgrifennu ato i'w wneud yn ymwybodol o unrhyw ddeisebau sy'n cyrraedd y trothwy, ac i'r Pwyllgor nodi a yw am wneud cais am ddadl ar y ddeiseb neu beidio, a'i resymau dros ddod i'r safbwynt hwnnw.

## Gweithredu

13. Derbyniodd y Pwyllgor Busnes y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog yn ffurfiol ar 28 Chwefror 2017, a gwahoddir y Cynulliad i gymeradwyo'r cynigion fel y'u nodir yn Atodiad B.

Annex A

| | | |
|---|---|---|
| **RHEOL SEFYDLOG 23 – Deisebau'r Cyhoedd** | | |
| **Y Pwyllgor neu Bwyllgorau** | | |
| 23.1 | Wrth gynnig cylchoedd gorchwyl pwyllgorau o dan Reol Sefydlog 16.2 neu 16.3, rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod y cyfrifoldeb dros y swyddogaethau a bennir yn Rheol Sefydlog 23 yn cael ei aseinio i bwyllgor neu bwyllgorau (y cyfeirir ato neu atynt yn Rheol Sefydlog 23 fel "pwyllgor cyfrifol"). | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| **Ffurf Deisebau** | | |
| 23.2 | Rhaid i ddeiseb nodi'n glir:<br>(i) enw'r deisebydd, a gaiff fod yn berson unigol (heblaw Aelod) sy'n preswylio yng Nghymru, neu yn gorff corfforaethol neu'n gymdeithas anghorfforedig o bersonau â safle yng Nghymru;<br>(ii) cyfeiriad y deisebydd y dylai pob gohebiaeth ynghylch y ddeiseb gael ei hanfon iddo; a<br>(iii) enwau a chyfeiriadau unrhyw un sy'n cefnogi'r | **Diwygio'r Rheol Sefydlog.**<br><br>Byddai'r newidiadau arfaethedig i (i) yn ei gwneud yn ofynnol i'r deisebydd fod yn preswylio yng Nghymru, neu – yn achos sefydliadau – fod â safle yng Nghymru. Ni fyddai unrhyw gyfyngiad ar bwy allai lofnodi deiseb.<br><br>Byddai'r newidiadau hyn yn gweithredu |

| | | |
|---|---|---|
| | ddeiseb. | argymhelliad 4 yn adroddiad y Pwyllgor Deisebau. |
| 23.3 | Rhaid i'r Llywydd benderfynu ar briod ffurf deisebau a rhaid iddo gyhoeddi ei benderfyniadau. | |
| **Derbyniadwyedd Deisebau** | | |
| 23.4 | Nid yw deiseb yn dderbyniadwy:<br>(i) os yw'n cynnwys llai na ~~10 llofnod~~50 o lofnodion;<br>(ii) os yw'n methu â chydymffurfio â Rheol Sefydlog 23.2 neu os nad yw yn y briod ffurf mewn ffordd arall;<br>(iii) os yw'n cynnwys iaith sy'n peri tramgwydd;<br>(iv) os yw'n gofyn i'r Cynulliad wneud unrhyw beth y mae'n eglur nad oes gan y Cynulliad bŵer i'w wneud; neu<br>(v) os yw yr un fath, neu i raddau helaeth yr un fath, â deiseb a gaewyd lai na blwyddyn yn gynt. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog.**<br><br>Byddai'r newid arfaethedig yn cynyddu trothwy'r gefnogaeth ar gyfer cyflwyno deiseb o 10 i 50, yn unol ag argymhelliad 3 y Pwyllgor Deisebau. |
| ~~23.5~~ | ~~Nid yw Rheol Sefydlog 23.4(i) yn gymwys os yw'r deisebydd yn~~ | **Dileu'r Rheol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| | ~~gorff corfforaethol neu'n gymdeithas anghorfforedig o bersonau.~~ | Roedd argymhelliad 3 y Pwyllgor Deisebau hefyd yn awgrymu y dylai'r trothwy newydd o 50 fod yn berthnasol i bob deiseb, gan gynnwys y rhai a gyflwynir gan sefydliad.<br><br>Trwy ddileu'r Rheol Sefydlog hon, byddai darpariaethau Rheol Sefydlog 23.4 yn berthnasol i bob deiseb. |
| 23.6 | Rhaid i'r Llywydd ystyried a phenderfynu mewn anghydfod a yw deiseb yn dderbyniadwy a rhaid iddo hysbysu'r deisebydd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, am ei benderfyniad a'r rhesymau drosto. | |
| 23.7 | Rhaid i'r Llywydd gyhoeddi cofrestr o'r penderfyniadau a wnaed o dan Reol Sefydlog 23.6. | |

Annex B

## RHEOL SEFYDLOG 23 – Deisebau'r Cyhoedd

### Y Pwyllgor neu Bwyllgorau

23.1 Wrth gynnig cylchoedd gorchwyl pwyllgorau o dan Reol Sefydlog 16.2 neu 16.3, rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod y cyfrifoldeb dros y swyddogaethau a bennir yn Rheol Sefydlog 23 yn cael ei aseinio i bwyllgor neu bwyllgorau (y cyfeirir ato neu atynt yn Rheol Sefydlog 23 fel "pwyllgor cyfrifol").

### Ffurf Deisebau

23.2 Rhaid i ddeiseb nodi'n glir:

(i) enw'r deisebydd, a gaiff fod yn berson unigol (heblaw Aelod) sy'n preswylio yng Nghymru, neu yn gorff corfforaethol neu'n gymdeithas anghorfforedig o bersonau â safle yng Nghymru;

(ii) cyfeiriad y deisebydd y dylai pob gohebiaeth ynghylch y ddeiseb gael ei hanfon iddo; a

(iii) enwau a chyfeiriadau unrhyw un sy'n cefnogi'r ddeiseb.

23.3 Rhaid i'r Llywydd benderfynu ar briod ffurf deisebau a rhaid iddo gyhoeddi ei benderfyniadau.

### Derbyniadwyedd Deisebau

23.4 Nid yw deiseb yn dderbyniadwy:

(i) os yw'n cynnwys llai na 50 o lofnodion;

(ii) os yw'n methu â chydymffurfio â Rheol Sefydlog 23.2 neu os nad yw yn y briod ffurf mewn ffordd arall;

(iii) os yw'n cynnwys iaith sy'n peri tramgwydd;

(iv) os yw'n gofyn i'r Cynulliad wneud unrhyw beth y mae'n eglur nad oes gan y Cynulliad bŵer i'w wneud; neu

(v) os yw yr un fath, neu i raddau helaeth yr un fath, â deiseb a gaewyd lai na blwyddyn yn gynt.

23. 5 *[Dilëwyd y Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad y Cynulliad ar XX XXXX XXXX]*

23.6 Rhaid i'r Llywydd ystyried a phenderfynu mewn anghydfod a yw deiseb yn dderbyniadwy a rhaid iddo hysbysu'r deisebydd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, am ei benderfyniad a'r rhesymau drosto.

23.7 Rhaid i'r Llywydd gyhoeddi cofrestr o'r penderfyniadau a wnaed o dan Reol Sefydlog 23.6.

**Gweithredu ar Ddeiseb**

23.8 Os yw deiseb yn dderbyniadwy, rhaid i'r Llywydd gyfeirio'r ddeiseb honno at bwyllgor cyfrifol.

23.9 Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol:

(i) cyfeirio'r ddeiseb at y llywodraeth, unrhyw un arall o bwyllgorau'r Cynulliad neu unrhyw berson neu gorff arall iddynt hwythau gymryd unrhyw gamau y credant eu bod yn briodol;

(ii) cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad; neu

(iii) cymryd unrhyw gamau eraill y mae'r pwyllgor yn credu eu bod yn briodol.

23.10 Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol hysbysu'r deisebydd am unrhyw gamau a gymerwyd o dan Reol Sefydlog 23.9.

**Cau Deisebau**

23.11 Caiff pwyllgor cyfrifol gau deiseb ar unrhyw adeg.

23.12 Pan fydd pwyllgor cyfrifol yn cau deiseb, rhaid iddo hysbysu'r deisebydd fod y ddeiseb wedi'i chau a'i hysbysu am y rhesymau dros ei chau.